**ADRODDIAD I'R CABINET**
**19 Chwefror 2013**

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**Pwnc:** Cyllideb 2013/14 a Strategaeth Ariannol 2013/14 – 2016/17

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

Cadarnhau'r cynigion a luniwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr (a nodir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn) fel y cynigion ar gyfer cyllideb 2013/14 a strategaeth ariannol 2013/14 – 2016/17 ac argymell hynny i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror.

**Barn yr aelod lleol**

*Nid yw'n fater lleol.*

---

**Cyflwyniad**

1. Yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr, bu'r cabinet yn ystyried y sefyllfa ariannol sy'n debygol o wynebu'r cyngor am y pedair blynedd nesaf ac yn sgil y darlun hwnnw fe luniwyd strategaeth ariannol ddrafft ar gyfer y pedair blynedd i ddod ynghyd a drafft o gyllideb fanwl ar gyfer 2013/14.

2. Yn dilyn llunio'r cynigion cychwynnol yma cynhaliwyd 4 seminar ar gyfer aelodau er mwyn egluro'n fanwl yr holl broses a'r dewisiadau rhesymegol oedd gan y Cyngor. 'Roedd hyn hefyd yn rhoi cyfle i glywed beth yn union oedd gan drwch yr aelodau i'w ddweud am y strategaeth arfaethedig ac i wrando ar unrhyw sylwadau i'r gwrthwyneb er mwyn sicrhau fod y sylwadau hynny yn cael eu hystyried wrth lunio'r cynigion terfynol.

3. Ar adeg paratoi'r adroddiad hon cynhaliwyd 3 allan o'r 4 sesiwn a teg yw dweud yr ymddengys fod yna gytundeb cyffredinol gyda chyfeiriad y strategaeth. Os cyfyd unrhyw bwyntiau i'r gwrthwyneb yn y pedwerydd sesiwn byddaf yn adrodd ar hynny ar lafar.

4. Cafwyd nifer o sylwadau adeiladol yn y sesiynau fydd yn ein cynorthwyo i weithredu'n ymarferol ar rai o'r cynigion yn y strategaeth ac yn arbennig felly, y broses o ddarganfod y bwlch ariannol.

5. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y cynigion yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror a byddaf hefyd yn adrodd ar ei drafodaethau ar lafar.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

6. Mae trwch y sylwadau a gafwyd hyd yma yn unfrydol yn cytuno gyda'r cyfeiriad cyffredinol a nodir yn y strategaeth (gan gynnwys y bwriad i gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% y flwyddyn er mwyn ceisio lleihau lefel y toriadau y byddwn yn eu hwynebu) nid oes unrhyw gyfeiriad arall wedi cael ei grybwyll i mi ei ystyried ac felly gellir cadarnhau'r cynigion gwreiddiol.

**Ystyriaethau perthnasol**

7. Gan fod yr aelodau a ddaeth i'r seminarau wedi cael cyfle i ddeall y cefndir sydd y tu ôl i'r strategaeth arfaethedig, gobeithiaf fy mod wedi rhoi cyfle i bob un aelod herio a holi'r cyfeiriad ac i grybwyll unrhyw ddewisiadau eraill yr hoffent i ni eu hystyried.

8. Mewn gwirionedd, yn y sesiynau a gynhaliwyd hyd yma, gwyntyllwyd gan un neu ddau o fynychwyr y dadleuon dros gynyddu'r Dreth Gyngor ymhellach er mwyn osgoi toriadau, ond gyda'r aelodau hynny hefyd yn rhoi cydnabyddiaeth fod y lefel 3.5% mae'n debyg yn taro'r balans priodol.

**Camau nesaf ac amserlen**

9. Os bydd y cabinet yn cadarnhau'r cynigion gwreiddiol fel yr argymhellir yn yr adroddiad hwn yna bydd yr adroddiad a'r argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

10. Mae'r adroddiad sydd ynghlwm yn cynnwys ychydig o fan newidiadau i'r adroddiad a ystyriwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr sef –

- ychwanegiad bychan i'r swm y r ychwanegir i'r gyllideb ysgolion er mwyn cyfarch yr angen i gynyddu 2.08% (cymal 3.12(b) yr atodiad i'r adroddiad)

- cydnabod y newidiadau i'r drefn cymorth y Dreth Gyngor sydd wedi codi ers paratoi'r adroddiad gwreiddiol (newidiadau i ran 3.8 yr atodiad);

- cryfhau'r datganiadau a wnaed o ran yr asesiad cydraddoldeb (yn dilyn sylwadau gan y swyddog cydraddoldeb) [newidiadau i ran 10.3 i 10.6 yr atodiad]

- man newid i'r proffil arbedion yn sgil y wybodaeth ddiweddaraf [newid i broffil yr arbedion yn y tabl yng nghymal 17 yr adroddiad ac yn rhan 6.6 yr atodiad]

- ychwanegu cymal 3.2 yn yr atodiad er mwyn crybwyll lefel yr incwm o ffioedd a thaliadau a ddaw i'n rhan (yn sgil sylw a wnaed yn y sesiynau aelodau)

11. Nid yw'r newidiadau yma'n newid cyfeiriad na'r casgliadau y daethpwyd atynt yn y cyfarfod diwethaf.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae fy mhrif sylwadau ar y mater hwn wedi ei nodi yn yr adroddiad arall ar y mater. Fodd bynnag, credaf ei fod yn bwysig croesawu'r gwaith a wnaed gan yr Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr i gynnal deialog ystyrlon gyda chynghorwyr am gyfeiriad y strategaeth. A rwyf hefyd yn croesawu'r elfen o unfrydedd barn ar fater anodd a dyrys yn dilyn y deialog hynny

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae fy sylwadau ar y strategaeth i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad sydd ynghlwm.